

Cam 1 Mae gweithiwr proffesiynol yn canfod neu'n cael eu gwneud yn ymwybodol o ddioddefwr/dioddefwyr posibl o fasnachu pobl a/neu gaethwasiaeth

Cam 2 **Asesiad risg brys** - mewn achosion brys lle mae bygythiad uniongyrchol i ddioddefwyr posibl neu unigolion cysylltiedig neu os oes angen triniaeth feddygol brys, neu os yw dioddefwr posibl yn dal i fod mewn lle o gam-fanteisio, ffoniwch yr heddlu ar 999. Ar gyfer ymholiadau, ffoniwch **Linell Gymorth Caethwasiaeth Fodern (0800 012 1700)** neu'r **NCA (0844 778 2406)**. Dylai ffôn fod ar gael i gysylltu â darparwr gwasanaethau cyfieithu'r Cyngor er mwyn cynorthwyo gyda chyfathrebu rhwng y dioddefwr posibl os nad ydynt yn dod o'r DU. E.e. **Rhif cyswllt y llinell iaith yw 0845 310 9900.**

Cam 3 Cysylltwch â'ch Pwynt Cyswllt Arbennig Caethwasiaeth Fodern neu arweinydd Diogelu Oedolion cyn gynted â phosibl. Unwaith i'r cyfrifoldeb am y dioddefwr posibl gael ei drosglwyddo, nodwch eich pryderon yn ysgrifenedig er mwyn sicrhau trywydd archwilio. **DIWEDD Y BROSES I'R ATGYFEIRIWR CYCHWYNNOL.**

Cam 4 - 5 Cynnal cyfarfod strategaeth asesiad risg ac asesiad o anghenion o fewn 24 awr.
Asesiad Brys (o fewn tair awr): Tri cwestiwn allweddol uniongyrchol: Ydynt yn parhau i gael neu'n debygol o gael eu targedu gan eu masnachwyr? Oes ganddynt gartref? Oes ganddynt incwm, bwyd a dillad cynnes? Os ydynt mewn perygl uniongyrchol, yna ystyriwch symud i'r cam MAC nesaf (Cam 6).
Asesiad heb fod yn frys:
Darparu gwybodaeth i'r dioddefwr posibl ar yr opsiynau ac ystyried y camau sydd eu hangen i sefydlogi amgylchiadau'r dioddefwr posibl.

- Ar gyfer dull a chwestiynau a argymhellir ar risg gweler y Safonau Gofal Goroeswyr Masnachu.
- Diogelu, tai diogel, anghenion gofal a chymorth. Ydynt mewn risg o ddychwelyd i fasnachu? Allent fyw yn annibynnol?
- Ystyried cymorth cyfreithiol a thrydydd sector, cyfieithwyr, hawliau lles, gwiriadau iechyd, llety a lloches. Os yw'r dioddefwr posibl yn dal i fod yn fwrdeistref, dynodwch ISVA, gweithiwr cymdeithasol neu un person o'ch awdurdod lleol i weithredu fel eiriolwr cyson ar gyfer y dioddefwr posibl ac arwain ar yr isod:

Cam 6 Egluro'r broses mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol i'r dioddefwr posibl. I sicrhau fod caniatâd gwybodus efallai y bydd yn briodol i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

A yw'r dioddefwr posibl wedi rhoi caniatâd gwybodus ar gyfer atgyfeiriad i'r MAC?

NADDO

DO

Cam 5 Cwblhau a chyflwyno ffurflen dyletswydd i hysbysu ms1 i: dutytonotify@homeoffice.gsi.gov.uk
Rhaid i'r ffurflen fod yn ddiennw os nad yw'r dioddefwr posibl eisiau i'w manylion personol gael eu defnyddio. D.S gyda chymorth, bydd rhai dioddefwyr posibl yn cytuno i fynd i'r MAC yn hwyrach. Gweler Cam 11 yna adolygwch benderfyniad MAC.

Cam 7 Cwblhau ffurflen mac oedolion, rhaid i'r dioddefwr posibl lofnodi
E-bost: nrm@nca.x.gsi.gov.uk Os ydych yn defnyddio cymorth TSA, Dylech hefyd anfon y ffurflen i: mst@salvationarmy.org.uk.

Cam 11 Cynnal asesiad o anghenion/risg
Cynnal ail asesiad anghenion a risg o ran tai, budd-daliadau, Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, hyfforddiant, cymorth anstatudol, anghenion cyfreithiol gan gynnwys mewnfudo. Diogelu'r dioddefwr posibl a gweithio i leihau risgiau ac atal ail-gamfanteisio, gan gynnwys darparu tai diogel os oes angen.

Os nad yw'r dioddefwr posibl yn diwallu meini prawf trothwy ar gyfer gofal, cymorth neu dai neu â NRPF, ystyriwch ddyletswyddau rhyngwladol a thoriadau posibl o ran confensiwn neu hawliau cymunedol. Hefyd ystyriwch atgyfeiriadau i opsiynau cymorth anstatudol.

Tai cyn penderfyniad rhesymol (Gweler Cam 5 o'r Canllaw Proses)
Rhaid i'r awdurdod lleol gadw ar brosesau diogelu a dyletswydd gofal. Os oes gan y dioddefwr posibl NRPF, ac os nad oes dyletswydd i ddarparu tai/cymorth o dan ddeddfwriaeth hawliau dynol/diogelu – cysylltwch â Byddin yr Iachawdwriaeth ar gyfer cymorth llety a/neu allgymorth (**0300 303 8151**), gan gynnwys tai cyn penderfyniad rhesymol, yn destun asesiad os yw'r dioddefwr posibl yn ddiymgeledd.

Cam 8 Cyfarfod Amlasiantaeth neu atgyfeiriad i grŵp prif ffrwd o fewn 35 diwrnod h.y. Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol / Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg i ddatblygu cynllun gofal a chymorth. Os yw'r dioddefwr posibl yn parhau yn y fwrdeistref neu'n debygol o ddychwelyd i'r fwrdeistref, dylid datblygu cynllun o ran diogelwch, tai, iechyd meddwl/corfforol. Cyngor cyfreithiol, opsiynau mewnfudo, opsiynau gweithio, anghenion cymdeithasol/diwylliannol.

Cam 12 **Cam 10i** Ailystyried? Gofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried. Pe gwrthodir hyn, gellir ei herio drwy adolygiad barnwrol neu mewn rhai achosion drwy Dribiwnlys ar gais mewnfudo.

Gwiriadau bob deufis i adolygu'r asesiad dioddefwr posibl am o leiaf 6 mis

Cam 10ii Ystyried opsiynau DLR a gweler Cam 11

Cam 9 Cyfnod o 45 diwrnod o adfer a myfyrio. Os caiff y dioddefwr posibl eu hail-gartrefu tu allan i'r fwrdeistref, dylai'r eiriolwr gysylltu â thai diogel Byddin yr Iachawdwriaeth yr awdurdod lleol, a sicrhau fod ganddynt yr holl ddogfennau perthnasol. Dylid gofyn i'r ALI newydd, gyda'r tŷ diogel, i ddatblygu cynllun gadael ar gyfer y dioddefwr posibl. Dylai'r eiriolwr gwreiddiol olrhain hyn mewn 45 diwrnod.

